Older People's Commissioner for Wales
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Y Dr Andrew Goodall
Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan
Tŷ Mamhilad
Bloc A
Ystâd Parc Mamhilad
Pont-y-pŵl
NP4 0YP

Adeiladau Cambrian
Sgwâr Mount Stuart
Caerdydd
CF10 5FL
08442 640670
gofyn@olderpeoplewales.com

26 Hydref 2011

Annwyl Dr Goodall,

Adolygiad Ysbytai Gofal gydag Urddas a hysbysiad bod yr Adolygiad ar ben

Hoffwn ddiolch i chi am ymateb yn brydlon i'm cais am ragor o wybodaeth mewn perthynas ag Argymhelliad 4 (gwybodaeth bersonol cleifion) o'm Hadolygiad 'Gofal gydag Urddas? Profiadau pobl hŷn mewn ysbytai yng Nghymru'.

Mae fy nhîm a mi wedi asesu'r trydydd ymateb, sef yr un olaf, yn drylwyr. Rydyn ni wedi cael cymorth gan banel o gynghorwyr y mae eu henwau wedi'u rhestru ar ein gwefan. Rwy'n fodlon ar drydydd ymateb Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan. Mae'n ymdrin yn fanylach â'r materion y gofynnais am ragor o wybodaeth amdanyn nhw.

Gan fod eich trydydd ymateb wedi bodloni fy nghais am wybodaeth a fydd yn fy narbwyllo y cydymffurfir â phob un o'm hargymhellion, mae'r Adolygiad swyddogol fel y mae'n ymwneud â Bwrdd Iechyd Aneurin

Bevan bellach ar ben. Bydd fy nhîm a mi'n gweithio'n ddiwyd i sicrhau bod fy argymhellion i a chynllun gweithredu Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan yn troi'n realiti ymarferol sydd o les i bobl hŷn yng Nghymru. Rydyn ni'n gobeithio cyfarfod â chi yng ngwanwyn 2012 i drafod y cynnydd sydd wedi'i wneud a chyfleoedd i rannu'r arferion gorau.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y llythyr hwn, cysylltwch ag Anna Buchanan ar 08442 640670 neu anna.buchanan@olderpeoplewales.com.

Yn gywir,

Ruth Marks
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru